

CYMRAEG (IAITH FODERN)

Amser - 1.5 awr

Ateba bob cwestiwn

Adran A

Rho'r ffurf ferfol gryno ar gyfer pob un o'r rhain (sylwer fod yr amser yn amrywio)

Er enghraifft: Mae e'n rhedeg > **rhed** neu **rheda**
Roedden nhw'n ateb > **ateben nhw** (10%)

1. Mae hi'n gwybod _____
2. Byddaf i'n dod _____
3. Rydych chi'n gwneud _____
4. Byddan nhw'n gobeithio _____
5. Rwyt ti'n gweld _____
6. Roedden ni'n mynd _____
7. Gwnaeth hi ddylunio _____
8. Rydyn ni'n darllen _____
9. Gwnaethon ni gael _____
10. Nid yw e'n cofio _____

Adran B

Rho gylch o gwmpas y ffurf gywir, er mwyn dangos dy fod yn gwybod ble y dylid treiglo

(20%)

1. Mae tri **gi/chi** gan fy **gymydog/nghymydog** ac maen nhw'n **cyfarth/gyfarth pob/bob** nos.
2. Ar ôl iddo **darllen/ddarllen** y **llyfr/lyfr** rhoddodd ef **copi/gopi** i'w **merch/ferch**.
3. Gofynnodd **pawb/bawb** i'r **darlithydd/ddarlithydd** am **gwaith/waith** cartref.
4. Yr oedd un **cadair/gadair** ar **cael/gael** yn yr ystafell **gwag/wag**.
5. Mae'r **cwestiynau/gwestiynau** hyn yn anodd. A **fydd/bydd** y **myfyrwyr/fyfirwyr** yn gallu eu **ateb/hateb**?
6. Gwelais **car/gar coch/goch** pan **cerddwn/gerddwn** i'r ysgol.
7. Ni **peintiodd/pheintiodd** Rhodri'r **tŷ/dŷ** ar ei **phen/ben** ei hun.
8. Hoffen ni **mynd/fynd** i **gwlad/wlad** arall ar ein **gwyliau/wyliau**.
9. Yr oedd torf o **pobl/bobl yn Gaerdydd/yn Nghaerdydd** **dydd/ddydd** Sadwrn.
10. Bydd dwy **gwera/wera** **Cymraeg/Gymraeg** newydd ar gael ar ôl y Nadolig.

Adran C

Cysyllta'r rhain, fel y bydd yr ail frawddeg yn dod yn gymal enwol.

Er enghraifft:

- Dywedais i. Mae cyfle gan bawb. > **Dywedais i fod cyfle gan bawb.**
- Rwyf ti'n credu. Bu hi farw y llynedd. > **Rwyf ti'n credu iddi farw y llynedd.**
- Rydych yn gweld. Byddai'n well peidio ag agor canolfan arall. > **Rydych yn gweld y byddai'n well peidio ag agor canolfan arall.** (20%)

1. Rwyf i'n credu. Cewch chi hwyl.

2. Dywedodd ef. Gwelodd eliffant yn y dref.

3. Efallai. Rydych chi'n iawn.

4. Cyhoeddwyd yn y papur. Bydd ffatri newydd yn agor.

5. Rydyn ni wedi deall. Rwyf ti wedi ennill.

6. Darllenais i. Cawsoch chi wobr.

7. Mae pawb yn gwybod. Maen nhw wastad ar frys.

8. Rydym o'r farn. Bydd yn well tewi.

9. Pwy a ddywedodd? Mae hi'n iawn.

10. A ydych yn meddwl? Bydd pawb yn fodlon.

Adran Ch

Cyfieitha'r paragraff hwn i Gymraeg

(25%)

Haf was sitting in front of the computer reading her magazine. Her friend, Kirsty, came in and said, 'I'm going into town this morning. Can you lend me any money, please?' 'I'm not sure,' Haf answered, looking in her purse, 'because I've only got a twenty pound note.' 'That'll be enough,' said Kirsty. She took the money and hurried out of the room before Haf had time to say another word. 'I'll be back by tea time,' Kirsty shouted as she went through the front door. Haf wasn't very happy about her friendship with Kirsty, and when she went into the kitchen and saw the heap of dirty dishes which her friend had left, she started to feel angry. Although there was no-one there to see it, her face grew red. 'We can't go on like this,' she said to herself.

Adran D

Ysgrifenna draethawd byr ar **un** o'r testunau hyn. Awgrymir dy fod yn ysgrifennu tua 300 o eiriau. Dylid cofio mai cywirdeb ac iaith dda sydd bwysicaf, yn hytrach na faint yr wyt ti'n ei ysgrifennu.

(25%)

1. Yr amgylchedd
2. Byw heb fy ffôn symudol
3. Cadw'n heini
4. Fy hoff ffilm
5. Portread o rywun yr wyf i'n ei edmygu
6. Brexit